Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

11eg o Orffennaf, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Adroddiad Blynyddol 2024/25 |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-2025.

1.2. Mae adrodd chwarterol a blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan yr Is-Bwyllgor Lles Economaidd, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Is-Bwyllgor yn ystyried ac yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-25.

2.2. Bod y Is-Bwyllgor yn cymeradwyo cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-25 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r adroddiad blynyddol yn edrych yn ôl ar y cynnydd sydd wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf gan Uchelgais Gogledd Cymru. Yn bennaf mae’r adroddiad yn adrodd ar y Cynllun Twf, ac hefyd yn adrodd ar yr Cyd-Bwyllgor Corfforedig, Y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, a ffrydiau ariannu eraill megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac Cynlluniau Ynni Ardal Leol.

4.2. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r Cynllun Twf a'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth gyflawni'r prosiectau ynghyd â cherrig milltir allweddol eraill sydd wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Cymeradwyaeth 3 Achos Busnes Amlinellol, ar gyfer prosiectau Cydnerth, Di-wifr Uwch ac Anturiaethau Cyfrifol.
- Cymeradwyaeth 6 Achos Busnes Llawn (neu Achos Cyfiawnhad Busnes), ar gyfer prosiectau Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, LPWAN (BJC), Canolfan Dechnoleg Biotechnoleg (BJC), Rhwydwaith Talent Twristiaeth, Parc Bryn Cegin, Cydnerth.
- Gwaith ar y ddau brosiect o fewn y rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch yn mynd rhagddo’n dda ac yn unol a’r amserlen.

- Tynnu prosiect Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy yn ôl o'r Cynllun Twf, ar ôl sicrhau buddsoddiad ychwanegol gan y sector breifat i gyflawni'r prosiect o ganlyniad uniongyrchol i gydweithio agos rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a The Circular Economy Development.
- Penodi dau ymgynghorydd i ddarparu'r Gronfa Ynni Glân, y WCVA mewn partneriaeth ag Ynni Cymunedol Cymru yn arwain ar yr is-gronfa sector gwirfoddol, ac Umi ar yr i-gronfa sector breifat.
- Cyflawni a chwblhau y prosiect arianwyr gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn llwyddiannus, gyda un o'r uchafbwyntiau yn lansio Portal Sgiliau a Chyflogdwyedd Gogledd Cymru.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

**6.1.** Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ac yn un o ofynion allweddol Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

---

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Adroddiad Blynyddol 2024-25 |

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb"

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Ni fydd y penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant newydd. Rwyf yn fodlon fod yr Adroddiad Blynyddol yn adlewyrchiad cywir a theg o holl waith a chynnydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod 2024/25."